

Gwasanaeth Cofnodion Dysgwyr – Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'n ofynnol i'r Coleg sicrhau bod gan bob dysgwr sy'n astudio cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac ESFA Rif Unigryw'r Dysgwr (RhUD). Er mwyn gwneud hyn, caiff peth o'r wybodaeth bersonol a gesglir amdanoch wrth gofrestri ei gyflwyno i'r GCD i greu eich RhUD.

- Enw
- Dyddiad Geni
- Rhywedd
- Cyfeiriad a Chod Post
- Cyfeiriad Ebost

Trosolwg

I gydymffurfio â deddfwriaethau diogelu data, ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y sector hyfforddi, rydym yn gyfrifol am ddarparu copi o'r hysbysiad preifatrwydd hwn i ddysgwyr a/neu rieni/gwarcheidwaid. Mae'r hysbysiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth a ddelir am fyfyrwyr, gan esbonio pam y'i cedwir. Mae hefyd yn nodi sefydliadau trydydd parti sy'n derbyn y wybodaeth oddi wrthym.

Gallwch gyrchu'r Hysbysiad Preifatrwydd yma
<https://www.gov.uk/government/publications/lrs-privacy-notice>

Dilynwch y canllawiau ar gyfer [sut i gael mynediad at eich cofnodion dysgu personol](#).

Hysbysiad Preifatrwydd GCD ar gyfer dysgwyr, myfyrwyr, dysgwyr a hyfforddeion

Defnyddir y wybodaeth a ddarperir gennych gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (GCD). Mae'r GCD yn **darparu Rhifau Unigryw Dysgwyr (RhD)** ac yn creu **Cofnodion Dysgu Personol** ledled Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Gweithredir y cofnodion gan **Adran Addysg Lloegr (DfE)**. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. I gydymffurfio â deddfwriaethau diogelu data perthnasol, y DfE yw'r rheolydd data ar gyfer gwybodaeth bersonol a brosesir.

Pwy ydym ni?

Mae'r GCD yn cefnogi'r DfE trwy gasglu gwybodaeth dysgwyr oddi wrth ddarparwyr hyfforddiant a sefydliadau dyfarnu. I gydymffurfio â deddfwriaethau diogelu data perthnasol, y DfE yw'r rheolydd data ar gyfer gwybodaeth bersonol a brosesir.

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth?

Rydym yn derbyn eich data personol oddi wrth:

- ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a darparwyr hyfforddiant/dysgu.
- sefydliadau dyfarnu sy'n cynnig data cyflawniad achrededig.

Bwriad y GCD:

Adolygwyd ym Mehefin 2023

- Creu cofnod dibynadwy a dilys o ddysgu ar gyfer dinasyddion ledled Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- Caniatáu sefydliadau addysg i gyrchu'r cofnodion hyn pan fo angen i gefnogi unigolion i gofrestru ar gyfer addysg a chynngor gyrfaeodd, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad at yr addysg gywir a chyllid gan y llywodraeth.
- Rhoi Rhif Dysgwr Unigol i chi (RhDU).
- Creu Cofnod Dysgu Personol (CDP).

Y mathau o ddata personol y bydd GSD yn ei brosesu

Dyma'r categorïau o ddata personol y gall y GSD ei brosesu:

- manylion cyswllt personol
- data sy'n gysylltiedig ag addysg yr unigolyn
- data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch dysgu, gan gynnwys cyrsiau a chymwysterau rydych chi'n eu hastudio/wedi'u hastudio.

I sicrhau bod y cofnodion yn gywir, efallai bydd angen i ddarparwyr hyfforddiant gasglu rhagor o wybodaeth bersonol amdanoch. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wahaniaethu rhwng dysgwyr sy'n meddu ar wybodaeth bersonol debyg (e.e. enw(au) a dyddiad geni):

- pan fo angen casglu gwybodaeth ychwanegol i wahaniaethu rhwng dysgwyr, bydd y wybodaeth isod yn orfodol:
- cod post mwyaf diweddar
- dyddiad geni
- rhywedd

Defnydd cyfreithlon o'ch data personol

Er mwyn i'n defnydd o'ch data personol fod yn gyfreithlon, mae angen i ni ddiwallu un (neu fwy) o delerau'r ddeddfwriaeth diogelu data. Amodau perthnasol ar gyfer y GCD:

- Erthygl 6(1)(e) Rheoliadau Data Cyffredinol y DU (GDPR), cyflawni tasg gyhoeddus fel rhan o'n swyddogaeth adrannol.

Pwy fydd yn cyrchu eich gwybodaeth?

O bryd i'w gilydd bydd angen i ni roi eich gwybodaeth i sefydliadau eraill. Gallai'r rhain gynnwys partneriaid wedi'u cytundebu (sefydliadau rydym wedi'u cyflogi i brosesu eich

data personol ar ein rhan) a/neu sefydliadau eraill y mae angen i ni rannu eich data personol â nhw at ddibenion penodol.

Pan fydd angen i ni rannu eich gwybodaeth ag eraill, byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaethau diogelu data. Ar gyfer GCD byddwn yn rhannu eich data personol â'r canlynol:

- ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a darparwyr hyfforddiant/dysgu (pan fyddwch yn cofrestru ar gwrs).
- cyrff dyfarnu i gofnodi gwybodaeth cyflawniad/cyrhaeddiad megis canlyniadau arholiadau/graddau cwrs.
- sefydliadau awdurdodedig megis Ffederasiwn Sgiliau a Safonau'r Diwydiant (FISSS) a Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) i gofnodi a dilysu cymwysterau unigolion.

Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?

Bydd y DfE yn cadw eich data personol fel rhan o GCD am 66 mlynedd cyn ei ddileu.

Eich hawliau diogelu data

Dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau penodol. Gallwch chi:

Ofyn am gopi o'r holl wybodaeth amdanoch chi a gedwir gan DfE. Gallwch wneud hyn drwy ofyn am Gais Gwrthrych am Wybodaeth drwy lenwi [Ffurflen Gyswilt DfE](#).

Bydd DfE yn prosesu eich gwybodaeth personol ar GCD trwy ddefnyddio awdurdod swyddogol dan Ddeddf Addysg 2011 a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Mae hyn yn ein caniatáu i sicrhau bod darparwyr hyfforddiant yn gwneud ceisiadau am gyllid perthnasol gan y Llywodraeth ynghyd â diogelu arian cyhoeddus ac atal twyll.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r DfE yn trin gwybodaeth personol ar [Siarter Gwybodaeth Personol DfE](#). Os ydych am gysylltu â ni ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'r uchod, ewch i [DfE - Contact Us](#). Os na fedrwnch ddefnyddio'r ffurflen gyswilt ar-lein, gallwch anfon llythyr at y cyfeiriad a ddarperir isod.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau diogelu data ar gael ar Wefan y Comisiynydd Gwybodaeth <https://ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/individual-rights/individual-rights/>

Diweddarwyd diwethaf

Efallai bydd angen i ni ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd, felly awgrymir i chi wirio eich gwybodaeth bob hyn a hyn. Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf ar 16 Awst 2022.